





## Sut i Ddod o Hyd i Ni



## Trychinebau Pyllau Glo yn Sengenydd 1901 a 1913



Roedd y Pwll Glo Cyffredinol, Senghenydd yn berchen i Lewis Merthyr Consolidated Collieries Limited. Roedd yn rhan o ymerodraeth cloddio enfawr a oedd yn cael ei rhedeg gan Sir William Thomas Lewis, Arglwydd cyntaf Merthyr Senghenydd. Lewis oedd y perchennog glo mwyaf yng Nghymru. Ef sefydlodd y Raddfa Symudol a Chymdeithas Perchenogion Glo Sir Fynwy a De Cymru.

Dechreuodd suddiad y pwll glo yn 1891. Cwblhawyd dwy siafft, Efrog a Lancaster, y ddau bron i 2,000 troedfedd mewn dyfnder.

Roedd y gwaith yn cael ei rannu i ddwy ardal, yr ochr Gorllewinol a'r Ochr Ddwyreiniol. Rhannwyd y naill ochr mewn i nifer o ardaloedd. Roedd ardaloedd y Gorllewin yn adlewyrchu amserau'r suddo oherwydd fe'u henwyd ar ôl brwydrau Rhyfel y Boer, Pretoria, Mafeking, Kimberley, Ladysmith, Bottonic a Gorllewin Efrog.

Pan mae pobl yn sôn am drychineb Senghenydd, maent fel arfer yn cyfeirio at drychineb 1913, ond dylid cofio fod dau drychineb wedi digwydd yn y pwll glo hwn, y cyntaf yn 1901.

**I DREFNU TAITH AM DDIM FFONIWCH:**

029 2083 0444/5

029 2083 2061

e-bost: [senghen.heritage@btconnect.com](mailto:senghen.heritage@btconnect.com)

### CYDNABYDDIAETH:

Hoffwn ddiolch i'r diweddar Mr D. Sutton am ysgrifennu'r testun amgaedig ac i Lyfrgell Genedlaethol Cymru am ddarparu'r ffotograffau archif a ddefnyddiwyd yn y cyhoeddiad hwn.







## 24ain Mai 1901

**Digwyddodd y trychineb gyntaf** ar y 24ain o Fai 1901. Trwy drugaredd, digwyddodd ar ddiwedd y sifft nos pan roedd nifer o'r glowyr wedi dod i'r wyneb. Roedd 82 ar ôl o dan ddaear pan ddigwyddodd y ffrwydrad. Dim ond un o'r rhain wnaeth fyw. Gwir drasiedi'r ffrwydrad oedd ni ddefnyddiwyd y gwersi, a ddysgwyd er maint y gost ddynol, i rwystro graddfa ffrwydrad 1913.

Gofynnodd yr Ysgrifennydd Cartref i'r Athro W. Galloway o Brifysgol Caerdydd, cyn Arolygwr Pyllau Glo, ysgrifennu adroddiad ar y ffrwydrad. Roedd yr adroddiad yn dangos fod llwch glo tân ac aer yn cynhyrchu cymysgedd marwol gallai gael ei gynnau heb ffrwydrad nwy methan. Roedd Senghenydd yn bwl glo poeth, sych, llychlyd, gyda thymereddau tua 25° yn uwch na'r darleniadau ar yr arwyneb. Roedd maint y llwch yn cynyddu'n fawr oherwydd y dull o lwytho cerbydau glo tanddaearol ac oherwydd pennau fframwaith agored y cerbydau glo tanddaearol. Anogodd Galloway i

bob perchennog i roi digon o ddŵr ar y ffyrdd i rwystro'r perygl o ffrwydradau ac i chwistrellu pob man llychlyd.

Yn 1911, casglwyd nifer o reoliadau gweithio'n ddiogel ynghyd o dan Ddeddf y Pwll Glo ar ôl dysgu o brofiad chwerw. Roedd y Ddeddf yn cynnwys rheoli o offer trydanol i rwystro gwreichioni, rhoi dŵr ar yr ardaloedd llychlyd a hefyd yr angen i bob pwll glo i gael ffannau cildroadwy fel y gall aer glân gael ei ddarparu mewn achosion o argyfwng. Roedd y Ddeddf hon yn galw fod y ffannau yn gildroadwy erbyn y 1af o Ionawr 1913. Gofynnodd perchennogion y pyllau glo yn Senghenydd am estyniad ac fe gawsant ef, ac roedd fod terfynu ar 16eg Medi 1911.

Ar adeg y ffrwydrad, doedd y ffannau ddim yn gallu cael eu cildroi yn Senghenydd. Does dim amheuaeth os byddai termau llawn y Ddeddf Pyllau Glo wedi cael ei weithredu yn Senghenydd ym mis Hydref 1913, byddai'r nifer oedd wedi marw wedi bod llawer yn is.

## 14eg Hydref 1913

**Digwyddodd yr ail drychineb** yn Senghenydd ar 14eg Hydref 1913. Y tro hwn, yn drychinebus, digwyddodd 10 munud wedi 8 yn y bore ar ôl i 950 o ddynion fynd lawr i'r pwll a dechrau gweithio ar sifft y bore. Fe wnaeth ffrwydrad enfawr wthio'r cawell dwy dunnell o bwysau i fyny siafft Lancaster o waelod y pwll gan dorri pen yr arolygwr pen pwll, a oedd ger y gêr weindio, a dinistrio'r gêr pen pwll. Cafodd y ffrwydrad a'r tân a ddilynodd ei ganoli ar ochr Orllewinol y pwll.

Cafodd y dynion a oedd yn gweithio ar yr ochr Ddwyreiniol eu codi yn ddiogel i fyny i'r wyneb ond ar yr ochr Gorllewinol aeth y tân fel ffwrnais a doedd dim digon o gyflenwad dŵr i ddelio â hyn. Doedd ddim yn bosib chwaith i gildroi'r ffannau i dynnu i ffrwrdd y mygdarthu peryglus.

Ar ddydd Mercher y 15fed codwyd gobeithion pan darganfyddwyd 18 o ddynion yn fyw yn ardal y Bottanic, tua 1200 llath o waelod y pwll ond y rhain oedd y dynion olaf i gael eu darganfod yn fyw. Ar yr 16eg collwyd gobaith a chafodd y tân ei gylchynu gan fagiau tywod. Erbyn yr 20fed, roedd y nifer wedi marw wedi cyrraedd 440 = 439 o lowyr ac un achubwr. Darganfyddwyd 406 o gyrff gyda 346 wedi cael eu hadnabod, 48 heb eu hadnabod, bu farw 6 yn yr ysbyty ac roedd 33 o ddynion dal wedi eu claddu yn y pwll.

Nid oedd Llys y Crwner na'r Comisiwn Ymchwilio, a gynhaliwyd ar ôl y ffrwydrad, yn gallu cytuno ar wraidd achos y trychineb. Yr unig beth y cytunwyd arno oedd bod nwy methan yn ymwneud a'r trychineb. Beth ddaeth i'r amlwg yn ystod

y ddau ymchwiliad oedd bod Deddf y Pyllau Glo 1911 wedi cael ei dorri ar sawl achlysur. Grym y farn gyhoeddus, a arweiniwyd gan Undeb y Glowyr a achosodd i'r Llywodraeth i weithredu ar y troseddau hyn. Ym mis Mai 1914, fe wnaeth y rheolwr, Edward Shaw, wynebu 17 cyhuddiad yn Llys yr Ynadon tra gwnaeth y perchennogion wynebu pedwar.

O'r 17 o gyhuddiadau yn erbyn Shaw, cafodd ei ddyfarnu am 8 a chafodd 9 eu gwrthod. Cyfanswm y ddirwy oedd £24. Roedd pennawd newyddion mewn papur newydd lleol yn dweud "Bywydau Glowyr yn 5½c yr un". Cymerodd tan fis Chwefror 1916 i'r perchennogion i gael eu darganfod yn euog o un cyhuddiad - methu ffitio ffannau cildroadwy. Am hynny, cawsant ddirwy o £10 gyda £5.25 o dreuliau. Roedd Arglwydd Merthyr, y perchennog, wedi marw ym mis Awst 1914 cyn i'r ddeddfryd gael ei basio. Adlewyrchwyd dichter y cyhoedd am y digwyddiad a'u cydymdeimlad dwfn am y golled ofnadwy yn eu hymateb i'r Gronfa Apêl. Erbyn mis Gorffennaf 1914 roedd £126,000 wedi ei gyfrannu ar gyfer 800 o bobl ddibynol, 205 yn weddwon, 542 yn blant a 62 o dadau neu famau dibynol. Ym 1928 caewyd y pwll glo.

Mae'r Pwll Glo wedi cael ei glirio, adeiladau ar y wyneb wedi eu dinistrio yn 1963 ac yn 1979, cafodd y ddwy siafft eu llenwi a'u capio, a gyda grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, cymerwyd y cyfle i uwchraddio'r Ystafell Treftadaeth ac arteffactau.

Yr hyn na allwn anghofio yw'r atgof o'r golled, ac ni all gost y dioddefaint dynol byth gael ei gyfri.

